



CYNGOR TREF  
**AMLWCH**  
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN  
Epost/Email: [swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk](mailto:swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk)  
Ffon/Tel: 01407 832 228

**Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Ionawr 26, 2016 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.  
*Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday January 26<sup>th</sup> 2016 at 7pm.*

**Presennol/Present:** Gareth W Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), T Gwynn Jones, Meg Roberts, Gordon Warren, Nige Ault, Mike Roberts

**Cyngorwyr Sirol/County Councillors:** Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled M Jones

**Yn bresennol/In attendance:** Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Insp. Llinos Davies (Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police)

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Myrddin Owens, Val Roberts, Helen Hughes, Wayne Jones, Gareth Owen, Liz Connolly, Cyng/Cllr Richard Jones

**1 Croeso/Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Cytuno ysgrifennu at Liz Connolly sydd wedi bod yn dioddef gyda'i iechyd yn ddiweddar.

*The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed. Agreed to write to Liz Connolly who has been suffering with health of late.*

**2 Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police**

Manteiswyd ar bresenoldeb Insp Llinos Davies i drafod plismona yn Amlwch. Cafwyd wybod y rhingyll wedi ei symud o Amlwch erbyn hyn ac fe nodwyd siom yr aelodau ar glywed y newyddion yma.

*Members took advantage of Insp Llinos Davies' attendance to discuss policing issues at Amlwch. It was noted that there is no longer a Sergeant based in the town and members voiced their disappointment upon hearing this news.*

**3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Gwynn Jones, eilio Meg Roberts.

*The minutes were confirmed a true record. Proposed by Gwynn Jones, seconded by Meg Roberts.*

**4 Materion yn codi/Matters arising**

**4.1** 3.2 – Goleuadau Port Amlwch – gobeithir bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod nesaf.

*3.2 – Amlwch Port Lights – it was hoped information will be available by the next meeting.*

**4.2** 7.2 – Manylion personol – gofynnwyd pam nad oedd manylion yr aelodau wedi eu pasio ymlaen i'r heddlu. Dyma oedd penderfyniad yr aelodau yn y cyfarfod. Bydd posib ail drafod ymhen chwe mis.

*7.2 – Personal details – it was asked why members' details had not been forwarded to the*

*police. This was the decision made by the members at the meeting. It will be possible to discuss again in six months' time.*

- 4.3** 8.1 – Grisiau'r Eglwys - mae arian wedi ei sicrhau gan gronfa Grantscape. Mae'r cadeirydd ers hynnu wedi bod mewn cysylltiad a'r Eglwys yng Nghymru sydd yn fodlon dylunio grisiau gan y byddent yn cwblhau peth gwaith yn yr Eglwys fodd bynnag. Roedd yr aelodau yn falch o'r cyd weithio. Bydd disgwyl ymateb ddiwedd mis Mawrth.

*8.1 – Church Steps – funding has bene secured from Grantscape towards the project. The Chair has since been in contact with the Church in Wales who are happy to design the steps as they will be completing other work in the Church at the same time. Members were glad of the cooperation. Feedback is expected at the end of March.*

- 4.4** 8.2 – Carnifal Amlwch – cydnabyddwyd lythyr gan gadeirydd y carnifal yn datgan siom bod y goleuadau Nadolig wedi eu goleuo yn fuan. Cydnabod bod llythyr o ymddiheuriad eisioes wedi ei anfon at Dywysoges Amlwch.

*8.2 Amlwch Carnival – a letter from the Carnival Chair noting her disappointment that the Christma Lights were switched on early was acknowledged. It was noted that a letter of apology had already been sent to the Carnival Queen.*

## **5** **Pwyllgorau allannol/External meetings**

### **5.1** **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Cafwyd adroddiad gan Meg Roberts yn dilyn cyfarfod pwyllgor ardal Mon yn Llangefni. Nodwyd bod dogfennau'r cyfarfod ar gael yn y Swyddfa i unrhywun oedd am eu gweld.

Nodwyd pryder am ddyfodol Canolfan Hamdden Amlwch gan fod cynlluniau ar y gweill am ddatblygu adnoddau ar gyfer *Island Games*. Deallwyd bod Horizon yn gefnogol o'r cynlluniau. Roedd yr aelodau yn bryderus iawn o'r cynlluniau, am ddyfodol y pwll yn Amlwch, a hefyd am gostau cynnal a chadw unrhyw adnoddau wedi'r gemau fod.

Cytuno byddai angen codi ymwybyddiaeth o bryderon yr aelodau yn y cyfarfod gyda prif swyddogion Horizon ar y cyd a'r cynghorhau cymuned eraill.

*Meg Roberts gave an overview following the Anglesey area meeting at Llangefni. It was noted that the meeting's documents were available at the office if anyone wanted to see them.*

*Concerns were noted regarding the future of Amlwch Leisure Centre as there were plans to develop facilities for the Island Games. It was understood that Horizon were supportive of the plans. Members were very concerned about the plans, the future of the pool at Amlwch and also the maintenance and running costs of any facilities following the games.*

*Agreed that the concerns be brought to the attention of Horizon's senior officers at the joint meeting with other community councils.*

### **5.2** **Trefi Mon**

Cafwyd diweddariad o weithgareddau Trefi Mon gan Gareth W Roberts.  
*Gareth W Roberts gave an update of current activities.*

## **6** **Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report**

Cafwyd cais am arian gan Dawns i Bawb sydd yn gweithio dros ardal Gwynedd, mon a Chonwy. Cytuno peidsio a'u cefnogi gan eu bod yn gorff rhanbarthol.

*A request for funding was received from Dawns i Bawb a community dance group who work across Anglesey, Gwynedd and Conwy. Agreed not to support as they are a regional organisation.*

## **7** **Cynllunio/Planning**

### **7.1** **Penderfyniadau/Decisions**

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi caniatáu y ceisiadau canlynol/*Members were informed that*

*the County Council had approved the following applications -  
Mona Safety, Wesley Street (11C500A)  
Gernant, Ystad Glorian (11C97A)  
Tyn y Coed Farm, Penrhyd (11C399F)*

## **7.2 Ceisiadau/Applications**

*Trafodwyd un cais a chytuno nad oedd gan yr aelodau wrthwynebiad i'r datblygiad - Cais 11C192D Ail wampio llawr cyntaf Banc Nat West i greu 4 fflat.*

*One application was discussed and it was agreed that the members had no objection to the development – application ref 11C192D redevelopment of the first floor Nat West Bank to form 4 apartments.*

## **8 Gohebiaeth/Correspondence**

**8.1** Horizon – gwybodaeth am sesiynnau gwybodaeth yn y gymuned

*Horizon – information regarding information sessions in the community*

**8.2** Clerks and Council's Direct – rhifyn diweddaraf / latest publication

**8.3** Albert Owen – gwahoddiad i gyfarfod agored i drafod Prosiect Cysylltu'r Grid Cenedlaethol 5/2/2016 am 6.30 or gloch yn Llangefni

*Albert Owen – invitation to an open meeting to discuss the National Grid's North Wales Connection Project 5/2/2016 at Llangefni for 6.30pm.*

**8.4** Ymgynghoriad Gosod Tai Cymdeithasol – mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori ar newidiadau i'r system gyfredol i osod tai. Deallwyd bod y system a gynnigir eisioes yn bodoli mewn ardaloedd eraill ac yn fwy teg i'r rheini sy'n ceisio am loches. Cytuno ymateb yn ffafriol i'r newidiadau.

*Consultation on Allocating Social Housing – the County Council are consulting on changes to the current system of allocating housing. It was understood that the system proposed is already in use in other areas and is fairer to those looking for accommodation. Agreed to respond favourably to the changes.*

**8.5** Ymgynghoriad Cynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox – mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn Chwefror 23.

*Magnox Socio-Economic Plan – there is a need to respond to the consultation by February 23<sup>rd</sup>.*

## **9 Horizon**

Bydd cyfarfod gyda prif swyddogion Horizon i'w gynnal ar y cyd gyda cynrychiolwyr chwe cyngor cymuned gogledd mon nos yfory. Cynhaliwyd trafodaeth wythnos diwethaf gyda cynrychiolwyr y cynghorau cymuned a daethpwyd i benderfyniad bod pum pwnc i'w godi gyda'r cwmni –

- 1) Priffyrdd a trafndiaeth (A5025)
- 2) Hamdden (Canolfan Amlwch)
- 3) Addysg (Ysgolion Cynradd y Cylch ac Ysgol Syr Thomas Jones)
- 4) Lletya (Safle Rhosgoch)
- 5) Cydweithio mewn partneriaeth

Cytuno bydd angen cyfarfod arbennig i drafod ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad diweddaraf.

*A meeting with Horizon's senior officers will take place tomorrow evening in partnership with representatives of the six north Anglesey community councils. A discussion took place last week with the councils' representatives where it was agreed to raise five points with the company –*

- 1) *Highways and Transport (A5025)*
- 2) *Leisure (Amlwch Centre)*
- 3) *Education (Region's primary schools and Syr Thomas Jones)*
- 4) *Accommodation (Rhosgoch Site)*
- 5) *Working in Partnership*

*It was agreed that a special meeting is required to discuss the Council's response to the latest consultation.*

**10 Swyddfa Bost/Post Office**

Anfonwyd llythyr wythnos diwethaf yn gofyn am ddiweddariad. Mae trafodaethau wedi bod yn cymryd lle ers mis Chwefror diwethaf gyda cytundeb wedi ei dderbyn ganol yr haf. Nid oes diweddariad wedi hynnu nac unrhyw benderfyniad. Nid yw Cyng Richard Jones wedi bod mewn cysylltiad o gwbl.

*A letter was sent last week asking for an update. Discussions have been taking place since last February with an agreement reached in the summer. There has been no update since and no decision has been made. Cllr Richard Jones has not been in contact at all.*

**11 Ehangu CCTV Extension**

Mae'r system CCTV gyfredol yn llwyddianus iawn ac mae cydweithrediad effeithiol gyda'r heddlu. Deallwyd bod posibilrwydd am fwy o gamerau am gost o £12,000. Mae peth arian wedi ei sicrhau dros gyfnod o dair mlynedd tuag at y prosiect. Pawb yn hapus i symud ymlaen ac ychwanegu at y system.

*The current CCTV system is very successful and there is an effective partnership with the police. It was understood that there is a possibility of expanding the system at a cost of £12,000. Some funding has already been secured over a three year period towards the project. All present happy to move forward and extend the coverage.*

**12 Gwasanaeth Ffisiotherapi Mon/Anglesey Physiotherapy Service**

Daw'r Cadeirydd at sylw'r aelodau ei bod wedi dod i'r amlwg mewn trafodaethau yn y gymuned ac mewn pwyllgorau bod diffyg gwasanaeth ffisiotherapi yng nghogledd Mon. Mae cyswllt wedi ei wneud a'r gwasanaeth iechyd yn gofyn am fwy o wybodaeth ac mae disgwyl iddynt ymateb. Gobeithir gallu adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf. Deallwyd bod Rhun ap Iorwerth eisioes yn ymwybodol o'r pryderon.

*The Chair brought to the attention of the members that it has become apparent during discussions in the community and at meetings that there is a shortfall in the physiotherapy service in North Anglesey. Contact has been made with the health board asking for information and we are waiting for them to respond. It is hoped to be able to report back at the next meeting. It was understood that Rhun ap Iorwerth was already aware of the concerns.*

**13 Banc HSBC Bank**

Daw llythyr gan y banc yn cadarnhau eu penderfyniad i gau cangen Amlwch. Mae'r Cyngor wedi siarad ag Albert Owen ac Rhun ap Iorwerth, ac fe ddeallwyd eu bod wedi cwrdd a swyddogion y banc i drafod eu pryderon. Cytuno disgwyl am ymateb y ddau cyn i'r aelodau sirol gysylltu. Yn y cyfamser mae deiseb wedi ei drefnu gan y Cyngor Tref wedi ei lofnodi gan rai cannoedd o bobl yn y gymuned.

*A letter from the bank confirmed their decision to close the Amlwch branch. The Council have spoken to both Albert Owen and Rhun ap Iorwerth, and it is understood that they have met with the bank's officers to discuss their concerns. Agreed to await a response before the county councillors make contact. In the meantime a petition arranged by Amlwch town Council has been signed by hundreds of community members.*

**14 Unrhyw fater arall/Any other business**

**14.1 Casglu biniau/Bin collection**

Nodwyd siom yr aelodau bod y Cyngor Sir yn bwriadu lleihau casgliadau biniau i unwaith pob tair wythnos. Roedd yr aelodau yn deall bod angen cynyddu yr hyn oedd yn cael ei ailgylchu ond teimlwyd y byddai lleihau y nifer o gasgliadau yn arwain at lygreddu anghyfreithlon. Deallwyd bydd biniau ailgylchu ychwanegol ar gael a bod patrwm tebyg i weld yn gweithio hyd yma yng Ngwynedd. Cytuno dylid ysgrifennu at y Cyngor Sir yn nodi pryderon y Cyngor.

*Members' concerns were noted with regard to the County Council's proposals to reduce bin*

*collections to once every three weeks. Members understood the need to increase recycling however it was felt that reducing collections would lead to illegal fly tipping. It was understood that additional recycling bins would be made available, and that a similar pattern was successful in Gwynedd. Agreed to write to the County Council to voice concerns.*

**14.2 Gwefan y Cyngor/Council Website**

Nodwyd pryderon Mike Roberts ynglyn a'r gwefan gyfredol yn dilyn ebost gan y clerch i ddileu'r hen wefan gan fod dryswch gyda derbyn ebyst ac nad oedd pobl yn gallu cysylltu a'r swyddfa. Cytuno bod angen sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei arddangos ar y wefan. Cytuno rhannu manylion cyswllt Mike Roberts gyda Neil Summers iddyn gael cydweithio a rhannu syniadau.

*Mike Roberts' concerns regarding the current website were noted following an email from the clerk asking that the old website be taken down due to confusion over email addresses and people not being able to contact the office. It was agreed to ensure that the information displayed was up to date. Agreed to share Mike Roberts' contact details with Neil Summers so that they can collaborate.*

**14.3 Seddi Gwag / Councillor Vacancies**

Nodwyd nad oedd y seddi gweigion wedi eu llenwi hyd yma. Bydd cadarnhau y nifer o seddi gweigion yn y cyfarfod nesaf. Rhaid cofio bod etholiad yn broses gostus.

*It was noted that the vacancies had not yet been filled. It would be confirmed at the next meeting how many councillor vacancies there are. It must be remembered that an election is a costly process.*

**15 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Chwefror 23, 2016 am 7 o'r gloch.

*The next meeting will take place on Tuesday February 23<sup>rd</sup> 2016 at 7pm*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / *The meeting closed at 20.30.*

CET01/2016